Hopkinstown Hall
Pontypridd
CF37 2RA

citrusarts.co.uk

| | |
|---|---|
| **ROLE TITLE:** | Circus Co-ordinator |
| **HOURS:** | 10 per week minimum, with additional freelance work available |
| **WORK PATTERN**: | 10 hours per week split across 2 days (to be discussed) |
| **CONTRACT TERM:** | 12 months with a view to extension |
| **BASED IN:** | Hopkinstown Hall, Pontypridd CF37 2RA |

**CITRUS ARTS**

We are one of Wales' leading Outdoor Arts & Circus organisations, and are renowned for delivering bold and ambitious performances and projects from our home in the Welsh valleys. Based in an old chapel building and the grounds of a disused colliery, we bring the ethos of the travelling circus to our community to make creativity a part of everyday life.

We ignite creativity to connect our community to **self**, to **each other** and to the **land** by building spectacular shared experiences. At Citrus we inspire, upskill, nurture confidence, create capability and opportunity, and bring the community together.

Our work engages all generations, with a particular emphasis on how creative projects can bring different generations together. We run weekly circus classes for 3-18 year olds, practice classes for adults and community sessions with our seniors.
We also run a training programme for 16-30 year olds not in education, employment or training, known as Artworkers who have delivered some of Wales most eye-catching and high profile artistic interventions of recent years.

**The Main purpose of this Role:**

The Executive and Creative Director are looking to bring in a new creative collaborator whose focus will be dedicated to developing our in- house classes and outreach projects.

You will plan weekly circus sessions for each age group, support the development of the circus curriculum and develop and assist with evaluation.

As the role develops you will have the opportunity to work with our Executive Director and fundraiser to co-develop bids that will shape the work of the wider company.

We hope this role will help the successful candidate to grow as a practitioner, facilitator, and creative leader.

## Responsibilities

**Programme**

- To take the lead on planning circus classes for our 3-6,7-9 and 10-12 year old groups.
- To deliver these classes on a weekly basis at Hopkinstown Hall during school term times.
- To prepare the space and any necessary equipment and materials for these sessions.
- To guide the class assistant in their role, eg by delegating tasks or activities, and ensure they are working safely and appropriately to their level of responsibility in class time.
- To work more closely with Citrus' more focussed teenagers to improve their practice and to develop mini performances for festivals and events.

**Strategy**

- To work with Citrus' Artistic Director to develop a Citrus curriculum ensuring every child is challenged, encouraged and nurtured to improve their skills and fitness.
- To work with the Executive Director to develop a system or approach for recognising and measuring success and for evaluating the programme of classes.
- To implement agreed processes of measurement and support evaluation.
- To help us build opportunities for young people to perform at live events

**General**

- To participate in project and Company meetings as required.
- To represent Citrus Arts positively and to act in the best interest of Citrus Arts.
- To report any safeguarding concerns immediately to the Executive Director in line with Citrus' Safeguarding Policy and Guidelines.

This list of responsibilities is not exhaustive and the Circus Coordinator may be required to perform duties outside of this list as operationally required and at the discretion of the

leadership team. As a dynamic organisation working in Outdoor Arts and Circus, adaptability and flexible working approaches are essential to the way the company operates. That said, we are an employer who respects individual needs, strengths, and limitations.

**Here's what we can provide you with:-**

- Fee of £20 per hour, 10 hours per week
- Training & professional development in areas of interest that will support your ability to do the role
- A safe place to work and an equitable working culture
- Mentorship
- Complimentary tickets for events and shows etc (where possible)
- Access costs (if necessary)

**DISCLOSURE AND BARRING SERVICE (DBS) CHECK:**
Appointment to this post is exempt from Rehabilitation of Offenders Act and is subject to an Enhanced DBS check

**RESPONSIBLE TO:** Artistic Director and Company Manager

**WELSH LANGUAGE:** Welsh language skills are desirable and a willingness to learn if skills aren't currently present is essential

**SAFEGUARDING:**
Child and Adult Safeguarding are key priorities for the Citrus Arts. We aim to support children and adults at risk to be as safe as they can and to fulfil their potential. All employees and volunteers are responsible for playing their part in the well-being, safety and protection of children and adults at risk. All employees and volunteers will be trained to the appropriate level of safeguarding and have a duty to fulfil their personal responsibilities for safeguarding.

| Requirements | Essential / Desirable | Method of Assessment |
|---|---|---|
| **Experience:** | | |
| • Circus teaching experience | Essential | Application |
| • Basic aerial rigging | Essential | Application |
| • Experience of working directly with marginalised community groups | Desirable | Application |

| | | |
|---|---|---|
| **Knowledge, Skills and Competencies:** | | |
| • Excellent organisation and planning skills with proven ability to work flexibly under pressure and to prioritise | Essential | Application |
| • Willingness to abide by Citrus' Equal Opportunities Policy | Essential | Application |
| • Willingness to learn basic Welsh | Essential | Interview |
| • Basic IT skills and computer literacy | Desirable | Application |
| **Personal Attributes:** | | |
| • Good punctuality and organisational skills | Essential | Interview |
| • Effective communication skills. | Essential | Interview |
| • A positive attitude with a high level of self-motivation and ability to work on your initiative. | Essential | Interview |
| **Other:** | | |
| • An affinity for the mission, vision and work of Citrus Arts. | Essential | Interview |
| • Inclusive approach to work, communication and creativity | Essential | Application |

Neuadd Trehopcyn
Pontypridd
CF37 2RA

citrusarts.co.uk

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Cydlynydd Syrcas |
| **ORIAU:** | O leiaf 10 awr yr wythnos, gyda gwaith llawrydd ychwanegol ar gael. |
| **PATRWM GWAITH**: | 10 awr yr wythnos wedi'u rhannu dros ddau ddiwrnod (i'w drafod). |
| **HYD Y CYTUNDEB:** | 12 mis gyda phosibilrwydd o estyniad. |
| **LLEOLIAD:** | Neuadd Trehopcyn, Pontypridd CF37 2RA |

**CITRUS ARTS**

Ni yw un o brif sefydliadau Celfyddydau Awyr Agored a Syrcas Cymru, ac rydyn ni'n enwog am ddarparu perfformiadau a phrosiectau mentrus ac uchelgeisiol o'n cartref yma yng nghymoedd De Cymru. Wedi'n lleoli mewn hen gapel ac ar dir hen bwll glo, dawn ag ethos y syrcas deithiol i'n cymuned i wneud creadigrwydd yn rhan o fywyd bob dydd.

Rydym yn tanio creadigrwydd er mwyn cysylltu ein cymuned â'n **hunain**, â'n **gilydd** ac â'r **tir** trwy greu profiadau ysblennydd i'w rhannu. Yn Citrus rydym yn ysbrydoli, tyfu sgiliau, meithrin hyder, creu medrusrwydd a chyfleoedd, a dod â'r gymuned at ei gilydd.

Mae ein gwaith yn ymgysylltu â phob cenhedlaeth, gyda phwyslais arbennig ar sut y gall prosiectau creadigol ddod â chenedlaethau gwahanol at ei gilydd. Rydym yn cynnal dosbarthiadau syrcas yn wythnosol i blant 3-18 oed, dosbarthiadau ymarfer i oedolion a sesiynau cymunedol gyda phobl hŷn.
Rydym hefyd yn cynnal rhaglen hyfforddi o'r enw ArtWorkers, ar gyfer pobl ifanc 16-30 oed sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac mae'r rhaglen wedi creu rhai o'r ymyriadau artistig mwyaf trawiadol a phroffil uchel yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf.

**Prif bwrpas y rôl:**
Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chreadigol am ddod â chydweithredwr creadigol newydd i mewn a fydd yn ymrwymo i ddatblygu ein dosbarthiadau mewnol a'n prosiectau allgymorth.

Byddwch yn cynllunio sesiynau syrcas wythnosol ar gyfer pob grŵp oedran, yn cefnogi datblygiad y cwricwlwm syrcas ac yn datblygu a chynorthwyo gyda'r gwerthuso.

Wrth i'r rôl ddatblygu fe gewch y cyfle i weithio gyda'n Cyfarwyddwr Gweithredol a'n Swyddog Codi Arian i gyd-ddatblygu ceisiadau a fydd yn siapio gwaith y cwmni ehangach.

Gobeithiwn y bydd y rôl hon yn helpu'r ymgeisydd llwyddiannus i dyfu fel ymarferwr, hwylusydd ac arweinydd creadigol.

## Cyfrifoldebau

### Rhaglen

- Cymryd yr awenau ar gynllunio dosbarthiadau syrcas ar gyfer ein grwpiau plant 3-6,7-9 a 10-12 oed.
- Darparu'r dosbarthiadau yn wythnosol yn Neuadd Trehopcyn yn ystod cyfnod tymor yr ysgol.
- Paratoi'r gofod ac unrhyw offer a deunyddiau sydd eu hangen ar gyfer y sesiynau.
- Arwain y cynorthwyydd dosbarth yn eu rôl, e.e. drwy osod tasgau neu weithgareddau, a sicrhau eu bod yn gweithio'n ddiogel ac yn briodol i lefel eu cyfrifoldeb yn ystod amser dosbarth.
- Gweithio'n agosach gyda phobl ifanc yn eu harddegau Citrus sy'n fwy sylwgar i wella eu hymarferiad a datblygu perfformiadau bach ar gyfer gwyliau a digwyddiadau.

### Strategaeth

- Gweithio gyda Chyfarwyddwr Artistig Citrus i ddatblygu cwricwlwm Citrus drwy sicrhau bod pob plentyn yn cael ei herio, ei annog a'i feithrin i wella ei sgiliau a'i ffitrwydd.
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol i ddatblygu system neu ddull ar gyfer cydnabod a mesur llwyddiant ac ar gyfer gwerthuso'r rhaglen o ddosbarthiadau.
- Cyflawni'r prosesau mesur a chefnogi gwerthuso.
- Ein helpu ni i greu cyfleoedd i bobl ifanc berfformio mewn digwyddiadau byw.

### Cyffredinol

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd prosiect a Chwmni yn ôl yr angen.
- Cynrychioli Citrus Arts mewn modd bositif a gweithredu er budd pennaf Citrus Arts.
- Rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw bryderon diogelu i'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn unol â Pholisi a Chanllawiau Diogelu Citrus.

Nid yw’r rhestr hon o gyfrifoldebau’n hollol gynhwysfawr ac efallai y bydd gofyn i’r Cydlynydd Syrcas gyflawni dyletswyddau tu allan i’r rhestr hon fel sy’n ofynnol yn weithredol ac yn ôl barn y tîm arweiniol. Fel sefydliad egnïol sy'n gweithio yn y Celfyddydau Awyr Agored a Syrcas, mae hyblygrwydd a dulliau gweithio hyblyg yn hanfodol i'r ffordd y mae'r cwmni'n gweithredu. Wedi dweud hynny, rydym yn gyflogwr sy'n parchu anghenion, cryfderau a chyfyngiadau unigolyn.

**Dyma beth allwn ni ei gynnig:-**

- Ffi o £20 yr awr, 10 awr yr wythnos.
- Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol mewn meysydd o ddiddordeb a fydd yn cefnogi eich gallu i wneud y rôl
- Lle diogel i weithio a diwylliant gweithio teg
- Mentoriaeth
- Tocynnau am ddim ar gyfer digwyddiadau a sioeau ac ati (pan yn bosib)
- Costau hygyrchedd (os oes angen)

**GWIRIAD Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS):**
Mae penodiad y swydd hon wedi'i eithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr ac yn amodol ar wiriad DBS Manylach.

**CYFRIFOL I'R:** Cyfarwyddwr Artistig a Rheolwr Cwmni.

**IAITH GYMRAEG:** Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ac mae parodrwydd i ddysgu yn hanfodol os nad yw'r sgiliau yn bresennol.

**DIOGELU:**
Mae Diogelu Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer Citrus Arts. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel a phosib ac i gyrraedd eu potensial. Mae pob gweithiwr a gwirfoddolwr yn gyfrifol am lesiant, diogelwch ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol am ddiogelu.

| Gofynion | Hanfodol / Dymunol | Dull asesu |
|---|---|---|
| **Profiad:** | | |
| • Profiad dysgu syrcas | Hanfodol | Ffurflen gais |
| • Gosod cyfarpar ar gyfer gwaith awyr (sylfaenol) | Hanfodol | Ffurflen gais |
| • Profiad o weithio'n uniongyrchol gyda grwpiau cymunedol ymylol | Dymunol | Ffurflen gais |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth, Sgiliau a Chymwysterau:**<br><br>• Sgiliau uchel o drefnu a chynllunio gyda gallu profedig i weithio'n hyblyg dan bwysau a'r gallu i flaenoriaethu<br><br>• Parodrwydd i gadw at Bolisi Cyfle Cyfartal Citrus<br><br>• Parodrwydd i ddysgu Cymraeg sylfaenol<br><br>• Sgiliau TG sylfaenol a llythrennedd cyfrifiadurol | <br><br>Hanfodol<br><br>Hanfodol<br><br>Hanfodol<br><br>Dymunol | <br><br>Ffurflen gais<br><br>Ffurflen gais<br><br>Cyfweliad<br><br>Ffurflen gais |
| **Nodweddion personol:**<br><br>• Sgiliau trefnu da a phrydlondeb<br><br>• Sgiliau cyfathrebu effeithiol.<br><br>• Agwedd bositif gyda lefel uchel o gymhelliant a'r gallu i weithio ar eich liwt eich hun. | <br><br>Hanfodol<br><br>Hanfodol<br><br>Hanfodol | <br><br>Cyfweliad<br><br>Cyfweliad<br><br>Cyfweliad |
| **Arall:**<br><br>• Cydnawsedd â bwriad, gweledigaeth a gwaith Citrus Arts.<br><br>• Agwedd gynhwysol at waith, cyfathrebu a chreadigrwydd. | <br><br>Hanfodol<br><br>Hanfodol | <br><br>Cyfweliad<br><br>Ffurflen gais |